



Y PROSIECT

**CYFLEUSTER  
CYNHYRCHU  
AWYRENDY 251**

Y CLEIENT

**AUK OPERATIONS  
LIMITED**

GWERTH Y CONTRACT

**£800K**

## Y NOD

Dewiswyd Hollingsworth Ellery gan AUK i ddarparu cyfleuster cynhyrchu ar frys ar gyfer cyweirio adenydd.

Dewiswyd awyrendy baril a adeiladwyd cyn y rhyfel a datblygodd Hollingsworth Ellery fanyleb i droi'r awyrendy'n gyfleuster addas

O ganlyniad i broblemau gweithredol, roedd angen i'r awyrendy fod yn barod i dderbyn yr adain gyntaf 3 wythnos ar ôl gosod yr archeb





Hollingsworth Group Ltd  
St. Ives Way  
Engineer Park  
Sandycroft  
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

[www.hollingsworthgroup.co.uk](http://www.hollingsworthgroup.co.uk)

## Y DULL

Ar y tu mewn, gosodwyd drws rholer mawr i mewn i'r strwythur ac roedd baril fewnol y strwythur (4500m<sup>2</sup>) wedi ei leinio gyda monarflex sy'n gwrthsefyll tân. Gwnaed gwaith trwsio bychan ar y llawr fel ydoedd ac yna seliwyd arwynebedd cyfan y llawr.

I gyweirio'r adenydd gosodwyd goleuadau newydd, pŵer ac awyr cywasgedig o gywasgyddion a generaduron.

Ar y tu allan, cafodd 500m o'r traciau presennol eu gwella i'w gwneud yn addas ar gyfer trawsgludiadau a mynedfa'r safle i 50 o weithredwyr AUK. Roedd y contract hefyd yn cynnwys cyfleuster ystafelloedd wedi'u gwasanaethu'n llawn i weithredwyr y cyfleusterau.

O safle presennol Brychdyn adeiladwyd ffordd 300m newydd i ôl-gerbydau sy'n cario adenydd. Yr ysbrydoliaeth ar gyfer y cynllun oedd symudiadau 'ysgubol' yr adenydd

## Y CANLYNIADAU

Gan weithio oriau estynedig ac ar y penwythnosau, cafodd y cyfleuster ei gwblhau **o fewn yr amseriadau gofynnol**. Roedd hyn yn cynnwys gwaith ychwanegol yn gwahanu lle o fewn yr awyrendy ar gyfer cyfleuster adnewyddu cludiant ac adnewyddu adeilad lleol arall ar gyfer eu staff rheoli.

Cafodd ei archwilio gan uwch dîm o 20 o bersonél AUK oedd wrth eu boddau ac yn teimlo ei fod yn addas ar gyfer cynhyrchu

## CRYNODEB

Meddai Vic Green a Steve Fowles rheolwr prosiect AUK, "Daeth y prosiect â gweddnewidiad rhyfeddol o fewn amser cyfyngedig iawn"